



**Dinas a Sir Abertawe**

## **Cofnodion Cyfarfod y Y Bwrdd Pensiwn Lleol**

**O bell drwy Microsoft Teams**

**1 Ebrill am 10 a.m.**

**Yn Bresennol:** A Lockyer (Cadeirydd) Presided

### **Cynrychiolwyr Cyflogwr**

P K Jones

### **Cynrychiolwyr Aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol**

I Guy

R Broad

D White

### **Swyddog(ion)**

Jeffrey Dong

Dirprwy Brif Swyddog Cyllid / Dirprwy Swyddog Adran 151

Stephanie Williams

Prif Gyfreithiwr

Karen Cobb

Uwch-gyfrifydd

Jeremy Parkhouse

Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Ymddiheuriadau am absenoldeb:** Dim.

---

## **17 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol: -

R Broad - Yr Agenda yn ei chyfanrwydd - Mae fy chwaer yn gweithio i Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot ac yn aelod o'r Gronfa - Personol.

I Guy – yr Agenda yn ei chyfanrwydd – Aelod o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ac chyfrannu tuag at Prudential AVC's – personol.

Y Cynghorydd A Lockyer – yr Agenda yn ei chyfanrwydd – Aelod o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol – personol. Mae fy ngwraig a'm mab hefyd yn aelodau o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol – personol.

### **Swyddogion:**

K Cobb – yr Agenda yn ei chyfanrwydd – Aelod o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol – personol.

J Dong – yr Agenda yn ei chyfanrwydd – Aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol – personol.

S Williams – yr Agenda yn ei chyfanrwydd – Aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol – personol.

J Parkhouse – yr Agenda yn ei chyfanrwydd – Aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol – personol.

## 18 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Bwrdd Pensiwn Lleol a gynhaliwyd ar 23 Medi 2021 a'u llofnodi fel cofnod cywir.

## 19 Adroddiad ISA 260. (Er gwybodaeth)

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid / Dirprwy Swyddog A151 adroddiad ISA 260 annibynnol yr Archwiliwr Allanol. Amlygwyd bod yr adroddiad archwilio diamod yn crynhoi prif ganfyddiadau'r archwiliad o gyfrifon 2020-21.

Ychwanegwyd bod llai o faterion i'w nodi nag mewn blynyddoedd blaenorol ac eglurodd y materion mewn perthynas â'r materion o bwys a amlinellwyd yn Arddangosyn 2.

Cafodd y Bwrdd ei ddiweddarau hefyd mewn perthynas â Prudential, darparwr diofyn Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (CGY) yng Nghymru.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Dirprwy Brif Swyddog Cyllid / Dirprwy Swyddog A151 am yr adroddiad a chanmolodd Karen Cobb, Uwch Gyfrifydd a staff Cyllid am eu holl waith.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r Adroddiad Archwilio Cyfrifon.

## 20 Adroddiad am doriadau. (Er gwybodaeth)

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid / Dirprwy Swyddog A151 adroddiad 'er gwybodaeth' a oedd yn cyflwyno unrhyw doriadau a oedd wedi digwydd yn y cyfnod yn unol â'r Polisi Adrodd ar Doriadau.

Roedd Atodiad A yn rhoi manylion yr achosion o dorri rheolau a oedd wedi digwydd ers y Bwrdd Pensiwn Lleol blaenorol ym mis Medi 2021. Amlygwyd manylion y toriadau a'r camau a gymerwyd gan y Rheolwyr.

## 21 Y Diweddaraf am y Polisi - Gordaliad Pensiwn. (Er gwybodaeth)

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid / Dirprwy Swyddog A151 adroddiad 'er gwybodaeth' ar y Polisi Gordalu Pensiynau a gymeradwywyd gan Bwyllgor y Gronfa Bensiwn ar 17 Tachwedd 2021.

Nododd y byddai'r Polisi'n cael ei ddefnyddio fel 'canllaw arfer da' ac y byddai pob achos yn cael ei drin yn ôl ei rinweddau.

## **22 Adroddiad yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd. (Er gwybodaeth)**

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid / Dirprwy Swyddog A151 adroddiad 'er gwybodaeth' i osod a monitro amcanion mesuradwy ar gyfer ymgynghorwyr buddsoddi penodedig yn unol â gofynion y CMA.

Amlinellwyd amcanion a nodwyd gan yr Ymgynghorwyr Buddsoddi a'u cynnydd yn erbyn yr un peth yn Atodiad 1. Ychwanegwyd bod yr amcanion yn destun adolygiad cyfnodol gan y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid.

## **23 Diweddariad Gweinyddiaeth Pensiwn. (Er gwybodaeth)**

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid / Dirprwy Swyddog A151 adroddiad 'er gwybodaeth', a gymeradwywyd gan Bwyllgor y Gronfa Bensiwn ar 17 Tachwedd 2021, yn unol â'r statud, i ddiweddarau Polisi Disgresiwn yr Awdurdod Gweinyddu Cymwys a Pholisi Gweinyddu Pensiynau.

Ychwanegwyd y byddai Polisi Disgresiwn yr Awdurdod Gweinyddol yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Bwrdd.

Nododd y Bwrdd y sefyllfa barhaus o ran taliadau hwyr gan gyflogwyr.

Mynegodd y Cadeirydd, ar ran y Bwrdd, ddiolch y Bwrdd i'r Rheolwr Pensiynau a'i thîm am eu holl waith caled.

## **24 Adroddiad Sero-ned. (Er gwybodaeth)**

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid / Dirprwy Swyddog Adran 151 adroddiad 'er gwybodaeth' a oedd yn ystyried y goblygiadau ac yn nodi'r dyddiad targed a'r fethodoleg briodol i gyflawni portffolio buddsoddi carbon net sero yng Nghronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe.

Ychwanegwyd bod Pwyllgor y Gronfa Bensiwn wedi cymeradwyo'r canlynol ar 17 Tachwedd 2021:-

- a) Ymrwymiad i gyflawni safle di-garbon net yn ei bortffolio buddsoddi erbyn 2037;
- b) Byddai mabwysiadu Credoau Buddsoddi Cyfrifol y Gronfa fel yr amlinellwyd yn Atodiad 1, yn sail i gamau gweithredu'r Gronfa ar risg hinsawdd;
- c) Camau gweithredu hinsawdd y Gronfa sy'n cael eu datblygu ar draws tri maes allweddol ('3-dimensiwn') i roi mwy o gydbwysedd rhwng:

1. Carbon a metrigau ESG eraill (yn ôl ac ymlaen).
2. Cyfleoedd a fyddai'n elwa o'r newid i economi carbon is.
3. Gweithgareddau ymgysylltu sy'n canolbwyntio ar yr hinsawdd, ac annog arfer gorau ymhlith rheolwyr cronfeydd, cwmnïau buddsoddi a buddsoddwyr eraill.

Nododd y Bwrdd y cynnydd a wnaed a phwysleisiodd yr angen am y targedau gosod i'w bodloni. Cydnabuwyd y byddai'r cynnydd a wnaed yn gosod y Gronfa fel arweinydd y DU, tra'n parhau â'r rhwymedigaeth i'w haelodau wrth geisio'r enillion gorau posibl.

## 25 Gwahardd y cyhoedd.

Gofynnwyd i'r Bwrdd wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod tra'n ystyried yr eitem(au) o fusnes a nodwyd yn yr argymhelliad(ion) i'r adroddiad ar y sail ei fod/eu bod yn ymwneud â datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i nodir yn y ddogfen. eithrio paragraff o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007 sy'n berthnasol i'r eitem(au) o fusnes a nodir yn yr adroddiad.

Rhoddodd y Bwrdd ystyriaeth i Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel y nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau canlynol o fusnes.

### (Sesiwn Gaeedig)

#### a Diweddariad am Bartneriaeth Pensiwn Cymru. (Er gwybodaeth)

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid / Dirprwy Swyddog A151 adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am gynnydd a gwaith Partneriaeth Pensiwn Cymru (WPP).

Dywedodd fod y Cyd-bwyllgor Llywodraethu wedi cymeradwyo'r cytundeb rhyng-Awdurdod a gymeradwywyd hefyd gan Gyngor Abertawe ar 4 Tachwedd 2021.

## 26 Adroddiad Buddsoddi. (Er gwybodaeth)

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid / Dirprwy Swyddog A151 adroddiad 'er gwybodaeth' a oedd yn darparu Adroddiad Monitro Buddsoddiadau Chwarter 3 2021 Hymans Robertson, Ymgynghorydd Buddsoddi.

## 27 Crynodeb Buddsoddi. (Er gwybodaeth)

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid / Dirprwy Swyddog A151 adroddiad 'er gwybodaeth' a oedd yn cyflwyno prisiad asedau a pherfformiad buddsoddi ar gyfer y chwarter, y flwyddyn a'r 3 blynedd yn diweddu 30 Medi 2021.

Daeth y cyfarfod I ben am 11.30 a.m.

**Cadeirydd**